




Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Clefydau Ceffylau

Cofiwch: Gall clefydau effeithio ar unrhyw geffyl, merlen neu asyn ar unrhyw adeg

Rhaid cysylltu â'ch Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol ar unwaith os ydych chi neu'r milfeddyg o'r farn bod eich ceffyl yn dangos arwyddion clinigol o glefyd hysbysadwy.

Manylion Cyswllt y Swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid:

Swyddfa Iechyd Anifeiliaid Gogledd Cymru

Rhif ffôn: 01286 674144

Llinell nos: 01286 674144


Swyddfa Iechyd Anifeiliaid De Cymru

Rhif ffôn: 01267 245400

Llinell nos: 07000 780144



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



www.cymru.gov.uk

Clefydau Ceffylau

Sut gall clefydau hysbysadwy effeithio arnoch chi a'ch ceffyl

- Gall ceffylau ddioddef salwch cronig neu angheuol.
- Bydd biliau'r milfeddyg yn codi.
- Gall fod cyfyngiadau o ran symud ceffylau ar y safle/oddi ar y safle.
- Gall y cyfyngiadau effeithio ar farchnadoedd, cystadlaethau, sioeau ac ati.

Sut mae lleihau'r perygl o glefyd cymaint â phosibl

- Edrychwch ar eich ceffyl(au) bob dydd a nodwch unrhyw ymddygiad anarferol neu unrhyw newid yn ei ymddangosiad corfforol.
- Os oes gennych unrhyw reswm i boeni, cysylltwch â'ch milfeddyg.
- Defnyddiwch arferion bioddiogelwch da.
- Sicrhewch fod eich ceffyl(au) wedi cael y brechiadau diweddaraf a bod cofnod ohonynt yn ei/eu pasbort.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn sefydlu ac yn cydgysylltu rhaglen dda ar gyfer rhoi moddion llyngyr gyda'ch milfeddyg a pherchnogion eraill sy'n defnyddio'r un tir pori â chi.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Clefyd Affricanaidd y Ceffylau (AHS)

Cefndir

Clefyd hynod angheuol sy'n effeithio ar geffylau, mulod, asynnod a sebraod yw Clefyd Affricanaidd y Ceffylau. Caiff ei achosi gan orbifeirws (math o feirws sydd hefyd yn achosi'r Tafod Glas), a'i drosglwyddo gan yr un math o wybed.

Mae'r tywydd fel tywydd cynnes, llaith a llawer o law yn ogystal â gwynt, yn dylanwadu ar y ffordd y caiff y pryfed brathu (fectorau), fel gwybed, eu gwasgaru.

Arwyddion clinigol

Mae'r arwyddion clinigol yn dibynnu ar ba ffurf ar y clefyd sy'n bresennol:

- Acíwt - gwres uchel, anhawster difrifol i anadlu, peswch a llif mawr o'r ffroenau.




Mae'r gyfradd farwolaeth yn uchel iawn, gyda 95% o geffylau'n marw o fewn wythnos.

- Cardiaidd - chwyddo ar y pen, yr amrannau, y gwefusau, y bochau ac o dan yr ên. Mae'r gyfradd farwolaeth tua 60%, gyda marwolaeth yn digwydd yn sgil methiant y galon.
- Y ffurf ysgafnaf - twymyn â thymheredd isel yn y bore sy'n troi'n wres mawr yn y prynhawn.
- Symptomau ffurf gymysg y clefyd yw problemau anadlu ysgafn, yna'r chwyddo a welir yn y ffurf gardiaidd.

Amddiffyn

- Ar hyn o bryd, nid yw'r UE wedi trwyddedu brechlyn ar gyfer yr AHS.
- Gallai amddiffyn ceffylau rhag gwybed leihau'r perygl iddynt gael eu heintio.
- Nid yw ceffylau sydd wedi gwella yn cario'r feirws.



Am ragor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau ar gadw golwg ar glefydau yn:
www.cymru.gov.uk/iechydanifeiliaid



75%

wedi'i ailgylchu
recycled

© Hawffraint y Goron 2010 F0761011



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Metritis Heintus y Ceffylau (CEM)

Cefndir

Clefyd gwenerol heintus sy'n cael ei achosi gan facteria ac sy'n effeithio ar geffylau yw CEM. Caiff yr haint ei ledaenu pan gaiff bacteria eu trosglwyddo'n uniongyrchol o'r gaseg i'r march/ceffyl ymlid a hefyd o'r march/ceffyl ymlid i'r gaseg ar adeg paru neu ymlid. Gall gael ei drosglwyddo yn semen meirch sydd wedi'u heintio, a ddefnyddir ar gyfer ffrwythloni artiffisial.

Gall heintiad anuniongyrchol ddigwydd drwy gyfarpar halogedig a safonau glendid personol isel. Gellir ei ledaenu hefyd trwy gysylltiad rhwng organau cenhedlu meirch/meirch ymlid a chesig neu gysylltiad rhwng organau cenhedlu a thrwyn.

Mae achosion yn cael eu cadarnhau ym Mhrydain o dro i dro.



Arwyddion clinigol

- Y prif arwydd clinigol gweladwy mewn cesig heintiedig yw llif o'r fylfa, fel arfer diwrnod i chwe diwrnod ar ôl trosglwyddo'r clefyd adeg paru.
- Mae meirch a cheffylau ymlid sydd wedi'u heintio fel arfer yn gludwyr goddefol: ni welir unrhyw arwyddion clinigol eu bod wedi'u heintio.

Amddiffyn a Thriniaeth

- Mae triniaeth â gwrthfotigau'n effeithiol.
- Nid oes brechlyn ar gael felly mae'n bwysig cadw at God Ymarfer y Diwydiant.



Am ragor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau ar gadw golwg ar glefydau yn:
www.cymru.gov.uk/iechydanifeiliaid



75% wedi'i ailgylchu
recycled

© Hawffraint y Goron 2010 F0761011



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Encephalomyelitis Feirol y Ceffylau (EVE)

Cefndir

Clefyd heintus ar geffylau yw EVE sy'n cael ei gario gan foscitos. Yr arwydd clinigol mwyaf cyffredin yw'r parlys ac arwyddion eraill o ddryswch nerfus a cheir nifer o wahanol fathau o'r feirws. Mae'r feirysau hyn yn gallu achosi clefyd difrifol ar bobl yn ogystal ag ar ddofednod ac weithiau mamaliaid eraill. Mae'r feirws yn gallu achosi Encephalomyelitis Ceffylau Venezuela (VEE), Encephalomyelitis Ceffylau y Gorllewin (WEE) ac Encephalomyelitis Ceffylau y Dwyrain (EEE).

Arwyddion clinigol

- Mae difrifoldeb yr arwyddion yn dibynnu ar y feirws ond ceir rhai themâu cyffredin. Mae'r clefyd yn datblygu 1 i 3 wythnos ar ôl heintiad gan y feirws. Arwydd cynta'r clefyd yw gwres, yna iselder a cholli'r awydd am fwyd,




ond gan y gallai'r symptomau fod mor ysgafn, gellid yn hawdd peidio â sylwi arnynt.

- Yr arwyddion nerfus a welir yw gorsensitifedd i sŵn a chyffyrddiad, gyda chynodau o gynnwrf ac anniddigrwydd, a gall ymddangos yn ddall. Gall y ceffyl gerdded yn ddall i wrthrychau a walydd. Mae cyhyrau'r wyneb a'r ysgwydd yn plycio. Mae cynnod o iselder difrifol yn dilyn. Mae ceffylau heintiedig yn sefyll â'u pennau'n isel gyda bwyd wedi hanner ei gnoi yn hongian o'u gwefusau. Mae'r anifail fel pe bai'n cysgu ac yn methu â dal ei ben i fyny, ac yn aml yn ei roi i bwyso ar rywbeth.

Amddiffyn

- Nid oes yna frechlynnau wedi'u cymeradwyo yn yr UE ar hyn o bryd i amddiffyn yn erbyn y feirysau Encephalomyelitis y cyfeirir atynt uchod.
- Gellir lleihau'r risg trwy amddiffyn ceffylau rhag y fector.



Am ragor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau ar gadw golwg ar glefydau yn:
www.cymru.gov.uk/iechydanifeiliaid



75% wedi'i ailgylchu
recycled



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Anaemia Heintus y Ceffylau (EIA)

Cefndir

Clefyd feirws yw EIA (neu 'Cryd y Ceffylau') sy'n effeithio ar geffylau, mulod ac asynnod. Er nad yw'n lladd bob tro, mae anifeiliaid sy'n gwella ohono yn cario'r clefyd ac yn gallu heintio ceffylau eraill. Cafwyd dau achos yn Wiltshire yn 2010.

Gall gael ei drosglwyddo drwy bryfed sy'n sugno gwaed a hefyd drwy ddefnyddio gwaed, cynnyrch gwaed, offer neu nodwyddau halogedig. Mae cesig yn gallu trosglwyddo'r clefyd i'w hebolion yn y groth.

Arwyddion Clinigol


- Aciwt - rhwng 7 a 30 diwrnod ar ôl cael eu heintio, mae ceffylau yn dioddef o wres ac o waedlif. Ychydig iawn o geffylau â'r gwres cychwynnol hwn fydd yn dal sylw perchnogion.



- Mewn achosion cronig ceir cyfnodau o wres, colli pwysau, iselder, gwanychu cynyddol, anemia ac oedema. Ymhlith y symptomau eraill a all ddigwydd mae colli awydd bwyd, gwneud dŵr yn aml, dolur rhydd, gwendid, parlys yn y chwarteri ôl, pilen ludiog welw, pilen y llygaid yn felyn, gwaedlif o fannau mân o dan y tafod ac anadlu a churiad calon cyflym.
- Weithiau, mae cesig yn erthylu.

Amddiffyn

- Nid oes triniaeth all cael gwared ar y feirws o'r corff ac felly mae anifeiliaid heintiedig fel arfer yn cael eu difa.
- Hyd yma, nid oes brechlyn boddhaol yn erbyn EIA. Mae gwaith ymchwil yn parhau i geisio creu brechlyn addas. Mae prawf gwaed yn adnabod anifeiliaid sy'n cario'r feirws.




Am ragor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau ar gadw golwg ar glefydau yn:
www.cymru.gov.uk/iechydanifeiliaid



75% wedi'i ailgylchu
recycled



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Arteritis Feirol y Ceffylau (EVA)

Cefndir

Clefyd heintus yw EVA. Er y gall fod yn anhwylder systemig, yn aml dim ond ar safleoedd magu y mae'n cael ei weld. Gall EVA gael ei drosglwyddo'n wenerol nid yn unig drwy broses baru naturiol ond hefyd drwy broses ffrwythloni artiffisial sy'n defnyddio semen ffres, wedi'i oeri neu wedi'i rewi. Mae'r haint yn cael ei ledaenu trwy ddod i gysylltiad â cheffylau heintiedig a ffetysau wedi'u herthylu.

Arwyddion Clinigol


- Mae'r feirws yn gallu achosi'r dwymyn, iselder ac oedema (chwydd) yn enwedig ar y coesau ac o gwmpas y llygaid. Gall achosi cesig i erthylu a chlefyd anadlu difrifol a marwolaeth mewn ebolion.



- Mae'r feirws yn lleoli ei hun yn chwarennau rhywiol y march a gall fod yn ei semen am sawl wythnos wedyn, neu am sawl mis neu flwyddyn ac o bosibl am weddill ei oes.

Amddiffyn

- Trwyddedwyd y defnydd o frechlyn ar gyfer ceffylau ym Mhrydain ac fe'i defnyddiwyd yn helaeth mewn meirch pedigri er mwyn eu diogelu rhag EVA i ryw raddau.
- Nid yw effeithiolrwydd y brechlyn hwn wedi cael ei ddangos o ran ei allu i ddiogelu ceffylau pan fo nifer sylweddol o achosion.
- Mae EVA yn glefyd y gellir ei atal drwy ddilyn Cod Ymarfer y Diwydiant.



Am ragor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau ar gadw golwg ar glefydau yn:
www.cymru.gov.uk/iechydanifeiliaid



75%

wedi'i ailgylchu
recycled

© Hawffraint y Goron 2010 F0761011



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Llynmeirch (Neu'r 'Ffarsi')

Cefndir

Clefyd heintus sy'n effeithio ar geffylau, asynnod, a mulod yn bennaf yw'r llynmeirch er ei fod yn gallu effeithio ar anifeiliaid eraill megis geifr, cathod a chŵn. Mae'n bosibl i bobl ei ddal o ddod i gysylltiad clòs â cheffylau heintiedig.

Fe'i hachosir gan haint y bacteriwm *Burkholderia mallei*, fel arfer drwy fwyta bwyd neu yfed dŵr halogedig.

Arwyddion Clinigol


- Acíwt - llif o'r trwyn, peswch, gwres uchel ac wlsrau ar y mwcws trwynol. Achosir marwolaeth gan septisemia ymhen ychydig ddiwrnodau. Mae'r llif yn heintus.



- Cronig - mae nodiwlau yn tyfu o dan y croen a cheir wlserau arnynt. Mae'r pibellau lymff yn tewhau ac mae'r nodau lymff a geir yn y man hwn yn chwyddo. Ceir nodiwlau yn y trwyn, yr esgyrn cogyrnog a'r septwm yn y trwyn, sydd yna'n mynd yn wlserog. Mae'r anifeiliaid yn sâl am fisoedd ac yna'n marw neu byddant yn goroesi gan gario'r clefyd. Gall yr anifeiliaid hyn barhau i ledaenu'r clefyd.

Amddiffyn

- Nid oes brechlyn ar gael ar hyn o bryd.
- Mae'r broses o atal clefyd sy'n digwydd yn naturiol yn cynnwys canfod a difa anifeiliaid sydd wedi'u heintio.



Am ragor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau ar gadw golwg ar glefydau yn:
www.cymru.gov.uk/iechydanifeiliaid



75% wedi'i ailgylchu
recycled



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Stomatitis Pothellog

Cefndir

Clefyd feirol ar geffylau a moch yw'r Stomatitis Pothellog sy'n gallu effeithio ar bobl hefyd. Nid oes unrhyw gofnod ohono ym Mhrydain. Gall y feirws gael ei drosglwyddo drwy ddod i gysylltiad uniongyrchol ag anifeiliaid sydd wedi'u heintio â chlefyd clinigol a hefyd drwy fogsitos neu glêr sy'n cnoi.

Arwyddion clinigol

- Nid oes modd gwahaniaethu rhwng y clefyd hwn a Chlwy'r Traed a'r Genau mewn termau clinigol a rhaid iddo gael ei ddiagnosio mewn labordy, er nad yw ceffylau'n gallu dal Clwy'r Traed a'r Genau.
- Bydd rhannau o'r epitheliwm yn gwynnu, ac yna bydd fesiclau yn ymddangos ar y ffroenau, y gwefusau, y tafod,



y daflod galed a meddal a'r band coronaidd. Gall briwiau hefyd ymddangos ar rannau eraill o'r croen, yn enwedig lle mae crafiadau ar y feinwe. Bydd hylif serws yn dod o'r fesiclau wrth iddynt fyrstio, fel arfer 6 i 24 awr ar ôl eu creu. Gall y carn ddod yn rhydd os bydd fesiclau wedi ffurfio yno.

- Mae cyfraddau marwolaeth yn gymedrol i isel.

Amddiffyn

- Nid oes triniaeth benodol ar gael.



Am ragor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau ar gadw golwg ar glefydau yn:
www.cymru.gov.uk/iechydanifeiliaid



75%

wedi'i ailgylchu
recycled

© Hawffraint y Goron 2010 F0761011



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Feirws Nîl y Gorllewin (WNV)

Cefndir

Ffurf heb fod yn heintus o'r encephalitis feirol yw Feirws Nîl y Gorllewin, sy'n cael ei ledaenu gan fogsitos. Adar mudol fydd y cyfrwng mwyaf tebygol i ddod â'r ENV i Brydain gan mai adar yw'r prif gariwr.

Gall pobl ac anifeiliaid ddal y feirws drwy frathiad gan fogsito sydd wedi'i heintio. Y rhywogaethau Culex o fogsito sydd gan amlaf yn ei gario a gwyddys eu bod i'w cael mewn rhai rhannau o'r DU.

Ni chredir bod pobl, ceffylau na mamaliaid eraill yn gallu ei drosglwyddo i bobl neu anifeiliaid eraill, h.y. maent yn 'dead-end hosts'.




Arwyddion Clinigol

- Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd y ceffyl yn dangos arwyddion amlwg o'r clefyd ond bydd yn serobositif (h.y. yn ymateb yn bositif i brawf gwaed am wrthgorffynnau'r feirws).
- Mae anifeiliaid sy'n cael eu heintio yn cael gwres ac yn aml, enseffalitis (chwydd yn yr ymennydd).
- Gall cyfran uchel o geffylau sy'n ei ddal farw.

Amddiffyn

- Gellir lleihau'r perygl o'i ddal trwy amddiffyn y ceffyl rhag y fector.
- Ym mis Ionawr 2009 cafodd brechlyn ar gyfer Feirws Nîl y Gorllewin sêl bendith ar gyfer ei ddefnyddio ledled yr UE.



Am ragor o wybodaeth, ewch i'r tudalennau ar gadw golwg ar glefydau yn:
www.cymru.gov.uk/iechydanifeiliaid



75% wedi'i ailgylchu
recycled